Galw am uned salwch meddwl i famau yng Nghymru : BBC Cymru Fyw

Mae angen adfer uned arbenigol iechyd meddwl i famau a babanod yng Nghymru, yn ôl elusen Mind Cymru.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i famau sydd angen cymorth arbenigol deithio i Loegr i gael help ar ôl i'r unig uned yng Nghymru, oedd yng Nghaerdydd, gau yn 2013.

Mae unedau fel hyn yn cynnig gofal i fenywod sydd yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl fel iselder ôl-enedigol neu seicosis ar ôl geni babi.

Y gred yw bod iselder ôl-enedigol yn effeithio ar un ymhob 10 menyw tra bod seicosis ar ôl geni babi yn gallu effeithio ar un ymhob 1,000 o enedigaethau.

Dywedodd Rhiannon Hedge o'r elusen: "Mae'n gwneud sefyllfa sydd yn barod yn anodd yn galetach fyth. Tra bod cefnogaeth gymunedol yn bwysig, mae yna adegau pan mae claf angen gofal arbenigol mewn ysbyty ac ar yr adegau hynny dyw hi ddim yn addas i fenywod fod mor bell o'u teuluoedd."

Darllen rhagor : BBC Cymru Fyw